Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

7 Ebrill 2009

Mae cyllid wedi helpu i ddatblygu rôl ysgolion arbennig mewn awdurdodau lleol a'r gymuned ysgol ehangach

Heddiw, mae Estyn, arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, yn cyhoeddi adroddiad[1] ar effaith prosiectau peilot ysgolion arbennig a ariennir gan raglen Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Datgloi'r Potensial*.

Nod cynllun ariannu 'Datgloi potensial yr ysgol arbennig' yw hyrwyddo'r defnydd o ysgolion arbennig fel canolfan ag adnoddau yn y gymuned.

Ym mis Medi 2006, trefnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bod £5.1 miliwn ar gael dros dair blynedd i'r 22 Awdurdod Lleol (ALl) yng Nghymru i sefydlu ystod o brosiectau peilot ysgolion arbennig. Cefnogodd y fenter hon nod y Llywodraeth Cynulliad i godi safonau ar gyfer grwpiau difreintiedig yng Nghymru.

Canfu arolygwyr Estyn lawer o enghreifftiau o arfer dda, a daethant i'r casgliad bod buddion sylweddol wedi deillio o'r cyllid. Mae'r ysgolion arbennig dan sylw wedi gwneud cynnydd da tuag at ddod yn ganolfannau sy'n cynnig adnoddau defnyddiol mewn lleoliad canolog. Maent hefyd yn batrwm o arfer dda ac yn cynnig arweiniad i'r gymuned ehangach.

Dywedodd Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, "Mae defnyddio cyllid 'datgloi'r potensial' wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar lawer o ysgolion arbennig. Yn gyffredinol, mae ysgolion

[1] *Effaith cyllid datgloi'r potensial' ar hyrwyddo'r defnydd o ysgolion arbennig fel canolfannau adnoddau yn y gymuned*

arbennig wedi bod yn frwdfrydig iawn ac yn ymroddedig i wneud y defnydd gorau o'r cyllid hwn. Maent wedi datblygu ystod eang o brosiectau arloesol er mwyn gwella canlyniadau i ddisgyblion ac i wneud cysylltiadau cryfach gydag ysgolion y brif ffrwd. Rydym wedi canfod hefyd fod staff mewn ysgolion arbennig yn dechrau teimlo bod eu gwaith yn cael ei werthfawrogi'n ehangach a bod y disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mwy."

Canfu arolygwyr bod cyllid 'datgloi potensial' i ysgolion arbennig wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r arbenigedd sydd mewn ysgolion arbennig, ac wedi hyrwyddo cyfnewid medrau yn dda rhwng staff ysgolion arbennig a staff ysgolion y brif ffrwd. Mae'r cyllid hefyd wedi cynyddu cydweithredu rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae staff ysgolion arbennig wedi elwa o'r cyfle i rannu'u harbenigedd. Canlyniad hyn yw bod y staff yn teimlo'n fwy o ran o'u cymuned addysg leol, ac yn sylweddoli bod eu gwaith yn cael ei werthfawrogi gan eraill.

Mae meysydd i'w gwella yn cynnwys rheoli'r cyllid a monitro ac arfarnu. Er gwaethaf adroddiadau ac adborth rheolaidd ar gynnydd i ALlau gan ysgolion arbennig, nid yw prosiectau'n cael ei monitro'n ddigon trylwyr. Yn y lleiafrif bach iawn o brosiectau nad oedd wedi gweithio gystal ag y gallent fod wedi gwneud, y rheswm am hyn oedd bod y cyllid heb ei reoli na'i ddyrannu'n ddigon gofalus yn unol â nodau ac amodau'r grant.

Hefyd, er bod nifer o ysgolion yn rhannu'r arfer dda o'r prosiectau, mae rhai aelodau staff yn dal i wneud y gwaith gwerthfawr hwn ar eu pennau'u hunain, ac nid ydynt yn gwybod digon am yr hyn sy'n gweithio'n dda yn y prosiectau ar draws Cymru.

Mae Estyn yn argymell, os bydd rhagor o gyllid yn dod ar gael, bydd rhaid cryfhau rheolaeth strategol, monitro ac arfarnu er mwyn cyflawni'r buddion mwyaf posibl o'r fenter hon.

DIWEDD

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464

Nodiadau i Olygyddion:

- Comisiynwyd adroddiad Estyn ‘Effaith cyllid ‘datgloi’r potensial’ ar hyrwyddo’r defnydd o ysgolion arbennig fel canolfannau adnoddau yn y gymuned’ gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae ar gael yn llawn yn www.estyn.gov.uk

- Anfonodd arolygwyr holiaduron cynhwysfawr at bob ALl ac ysgolion arbennig a fu’n ymwneud â’r prosiect peilot ariannu. Cafwyd ymateb gan 18 o ALlau a’u 34 o ysgolion arbennig ac un uned awtistiaeth.

- Estyn yw arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru. Mae Estyn yn comisiynu arolygwyr annibynnol (arolygwyr cofrestredig, arolygwyr tîm ac arolygwyr lleyg) ac Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi i gynnal arolygiadau ar draws yr ystod llawn o ddarparwyr addysg a hyfforddiant.

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy’n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau), ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, awdurdodau addysg lleol, addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, dysgu troseddwyr, cwmnïau gyrfaoedd ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.